

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Adroddiad Monitro
Blynyddol ar gyfer Gofal
Cymdeithasol a Iechyd
2021-22

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd. Os hoffech gael copi mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â ni.

Wrth gyhoeddwyd, mae copi o bob adroddiad ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
Conwy
LL31 9RZ

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu trwy'r canlynol:

Ffôn: 0300 7900 126
Ebost: agc@llyw.cymru
Gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: hiw@llyw.cymru
Gwefan: www.hiw.org.uk

Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Adroddiad Monitro Blynyddol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2021-22

Canfyddiadau allweddol.....	2
Cyflwyniad	3
Effaith Pandemig COVID-19.....	5
Casglu Data DoLS.....	6
Nifer y ceisiadau.....	6
Proffil Demografig	9
Ceisiadau a wnaed gan awdurdodau rheoli y tu allan i Gymru	12
Mathau o geisiadau.....	14
Awdurdodiadau Newydd	16
Amserlenni ceisiadau	20
Hyd awdurdodiad	26
Adolygiadau, Cynrychiolwyr, Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCAs) a'r Llys Gwarchod.....	29
Penodi Cynrychiolydd Unigolyn Perthnasol	29
Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA).....	29
Atgyfeiriadau at y Llys Gwarchod.....	30
Ansawdd y Data.....	32
Adborth ar yr adroddiad hwn.....	32
Geirfa: Termau allweddol a ddefnyddir yn Adroddiad Monitro DoLS	33

Canfyddiadau allweddol

- Nid oedd yr un o'r byrddau goruchwyllo yng Nghymru bron yn gallu bodloni eu hunain nad oedd hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Mae hyn oherwydd yr oedi parhaus wrth asesu ceisiadau ar gyfer Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS).
- Ar y cyfan, gwelwyd cynnydd bach yn nifer y ceisiadau DoLS a gafodd awdurdodau lleol yn 2021-22, er bod y niferoedd wedi parhau i fod yn is na chyn pandemig COVID-19.
- Parhaodd cyfanswm y ceisiadau DoLS i fyrddau iechyd yn gyson â'r llynedd. Fodd bynnag, roedd gwahaniaethau ymysg y byrddau iechyd.
- Roedd mwyafrif y ceisiadau DoLS yn parhau i fod ar gyfer pobl hŷn, gyda 87% o'r ceisiadau ar gyfer pobl dros 65 oed. Roedd y rhan fwyaf o'r ceisiadau ar gyfer DoLS yn parhau i fod o gartrefi gofal ar gyfer oedolion hŷn, ac o wardiau ysbyty ar gyfer oedolion hŷn.
- O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol, mae cyfran y ceisiadau a gafodd byrddau iechyd sydd wedi'u dosbarthu fel rhai brys wedi parhau i gynyddu ers 2019. Mae cyfran y ceisiadau a gafodd awdurdodau lleol sydd wedi'u dosbarthu fel rhai brys wedi bod yn sefydlog ers 2019.
- Mae'r cyfnod a gymerwyd i brosesu ceisiadau wedi parhau i fod yn wael. Rhaid i gyrff goruchwyllo sicrhau y caiff hawliau pobl eu diogelu ac y caiff asesiadau ar gyfer pob cais eu cynnal o fewn y nifer o ddiwrnodau a nodwyd yn unol â Chod Ymarfer DoLS.
- Caiff y rhan fwyaf o bobl eu cefnogi a'u cynrychioli mewn materion sy'n ymwneud â'u hachos amddifadu o ryddid. Mae hyn yn welliant sylweddol o gymharu â pherfformiad y llynedd. Rhaid i gyrff goruchwyllo barhau i sicrhau y caiff "cynrychiolydd unigolyn perthnasol" ei benodi ar gyfer pob awdurdodiad.
- Gwelwyd cynnydd o flwyddyn i flwyddyn rhwng 2019 a 2022 yng nghyfran yr awdurdodiadau a gaiff eu cyfeirio at y Llys Gwarchod, lle mae wedi parhau'n gyson ar gyfer byrddau iechyd.

Cyflwyniad

Hwn yw adroddiad monitro blynyddol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ar weithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS) yng Nghymru. Caiff yr adroddiad ei lunio ar ran Gweinidogion Cymru. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2021 a diwedd mis Mawrth 2022.

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 (DGM) yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer gweithredu a gwneud penderfyniadau ar ran pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae DGM yn nodi pwy all wneud penderfyniadau ar ran rhywun nad oes ganddo alluedd, pryd a sut. Mae'n sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er budd pennaf yr unigolyn, a bod yr unigolyn yn cael ei gynnwys yn y penderfyniad cymaint â phosibl.

Cyflwynwyd y DoLS fel diwygiad i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol a daethant i rym ym mis Ebrill 2009, gan ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer sefyllfaoedd lle y gall rhywun gael ei amddifadu o'i ryddid yn unol ag ystyr erthygl 5 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Gwnaeth dyfarniad gan y Goruchaf Lys ym mis Mawrth 2014¹, sef dyfarniad Cheshire West, egluro'r diffiniad ac ehangu cwmpas achosion o amddifadu rhywun o'i ryddid. Mae'r Trefniadau Diogelu yn help i sicrhau y caiff y broses gywir ei defnyddio i ddiogelu hawliau dynol pobl os na fydd ganddynt y gallu i gydsynio i'r trefniadau ar gyfer y gofal sydd ei angen arnynt; eu bod dan oruchwyliaeth a rheolaeth barhaus; ac nad ydynt yn rhydd i adael.

Nod deddfwriaeth DoLS yw diogelu pobl mewn cartrefi gofal ac ysbytai y gall fod angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid. Gelwir ysbytai a chartrefi gofal yn awdurdodau rheoli. Cyrff goruchwyllo sy'n awdurdodi ceisiadau DoLS. Bydd ysbytai yn cyflwyno cais i'w bwrdd iechyd lleol/cyfatebol i awdurdodi unrhyw geisiadau DoLS a wneir. Bydd cartrefi gofal yn cyflwyno cais i'w hawdurdod lleol am awdurdodiad o'r fath. Yng Nghymru, yr awdurdod lleol sy'n awdurdodi yw'r awdurdod lleol lle mae'r unigolyn fel arfer yn byw cyn iddo symud i fyw yn y cartref gofal.

Mae tri math o gais DoLS, sef Safonol, Brys neu Bellach.

- Ceisiadau safonol - Os bydd cartref gofal neu staff ysbyty yn cwblhau cais Safonol, yna rhaid i'r asesiadau sy'n ofynnol ar gyfer awdurdodiad Safonol gael eu cwblhau o fewn 21 i'r dyddiad a gafodd yr aseswyr cyfarwyddiad gan y corff goruchwyllo.
- Ceisiadau Brys – Gall cartref gofal neu ysbyty roi awdurdodiad Brys iddi'i hun i amddifadu unigolyn o'i ryddid os bydd angen cyn y gellir cael awdurdodiad Safonol. Rhaid iddo wneud cais am awdurdodiad Safonol ar yr un pryd (os nad

¹ Gweler

[http://mentalhealthlaw.co.uk/Cheshire West and Chester Council v P \(2014\) UKSC 19, \(2014\) MHLO 16](http://mentalhealthlaw.co.uk/Cheshire_West_and_Chester_Council_v_P_(2014)_UKSC_19_(2014)_MHLO_16)

yw eisoes wedi gwneud hynny). Pan fydd yr awdurdod rheoli wedi rhoi awdurdodiad Brys iddo'i hun a'i fod yn gwneud cais am awdurdodiad Safonol, rhaid i'r aseswyr gwblhau'r asesiadau o fewn pum diwrnod i ddyddiad y cyfarwyddyd. Rydym yn adrodd ar wahân ar y cais am awdurdodiad Safonol, yn dilyn awdurdodiad Brys. Rhoddir categori Brys i hyn yn yr adroddiad.

- Ceisiadau Pellach – Pan ddaw awdurdodiad DoLS i ben, a bod yr awdurdod rheoli'n dod i'r casgliad bod angen i'r awdurdodiad barhau, dylid gwneud cais am awdurdodiad Pellach. Gellir gwneud cais am y rhain 28 diwrnod ymlaen llaw.

Yn sgil dyfarniad y Goruchaf Lys yn 2014, bu cynnydd mawr iawn yn nifer y ceisiadau am awdurdodiadau DoLS. Cyhoeddodd Tŷ'r Arglwyddi adroddiad craffu² (2014) ar y DGM, gan ddod i'r casgliad nad oedd DoLS yn addas at y diben, ac argymhellodd eu disodli.

Cyflwynwyd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, er mwyn disodli DoLS fel y system ar gyfer amddifadu unigolyn sydd dros 16 oed o'i ryddid yn gyfreithlon. Nod y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yw cyflwyno proses symlach a fydd yn cefnogi'r trefniadau amddiffyn sydd eu hangen ar bobl yn well ac roedd disgwyl iddynt ddisodli DoLS o fis Hydref 2020. Fodd bynnag, cafodd hyn ei ohirio oherwydd effaith y pandemig a'r pwysau cysylltiedig ar y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol.

Rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2022, ymgynghorodd Llywodraeth y DU ar God Ymarfer drafft y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Ar yr un pryd, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau drafft sy'n cefnogi'r broses o roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yng Nghymru. Mae'r rheoliadau drafft yn canolbwyntio ar y canlynol:

- penodi Hyrwyddwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol a'u rôl;
- pwy all ymgymryd ag asesiad, gwneud penderfyniadau a chynnal adolygiadau cyn awdurdodi;
- penodi Gweithiwr Proffesiynol Galluedd Meddyliol Cymeradwy newydd a'i rôl;
- monitro'r Trefniadau Amddiffyn newydd ac adrodd arnynt.

Yng Nghymru, Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid newydd ar waith, a chaiff y swyddogaethau monitro ac adrodd eu cyflawni ar eu rhan gan AGIC, AGC ac Estyn. Bu'r cyrff monitro yn cydweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu strategaeth monitro ac adrodd drafft ar gyfer Cymru. Mae'r strategaeth yn disgrifio'r modd y bydd y cyrff monitro yn cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer monitro ac adrodd ar y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid. Bu'r cyrff monitro yn ymgynghori ar y strategaeth fonitro ac adrodd drafft ar gyfer Cymru yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y rheoliadau sy'n cefnogi'r broses o roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith yng Nghymru.

² Gweler <https://publications.parliament.uk/pa/ld201314/ldselect/ldmentalcap/139/13902.htm>

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid oes dyddiad o hyd ar gyfer rhoi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar god ymarfer y DGM a'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid a'r rheoliadau perthnasol yn parhau i gael eu hadolygu gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Hyd nes i'r newidiadau hyn gael eu rhoi ar waith, bydd y DoLS yn parhau, ac mae'n bwysig bod awdurdodau lleol a byrddau iechyd yn parhau i ddilyn proses DoLS er mwyn sicrhau y caiff hawliau pobl eu diogelu ac y caiff gofal a chymorth sy'n gyfystyr ag amddifadu o ryddid eu hawdurdodi'n briodol.

Yn ystod 2021-22, cafodd awdurdodau lleol a byrddau iechyd gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r nifer o geisiadau ar gyfer pobl sy'n aros i gael eu hasesu. Rhoddwyd cyllid ychwanegol hefyd i alluogi awdurdodau lleol a byrddau iechyd i drefnu hyfforddiant ychwanegol, i hyrwyddo egwyddorion DGM wrth baratoi i roi'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid ar waith.

Oherwydd yr oedi parhaus wrth asesu ceisiadau DoLS, roedd y rhan fwyaf o'r byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn dal i fethu bodloni eu hunain yn ystod 2021-22 nad oedd hawliau dynol pobl yn cael eu torri, drwy gael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon. Mae hwn yn ganfyddiad tebyg i'r hyn a gafwyd mewn blynyddoedd blaenorol, ac mae'n faes y bydd AGIC ac AGC yn parhau i'w fonitro a'i godi ag awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Effaith Pandemig COVID-19

Mae'r adroddiad yn cwmpasu ail flwyddyn pandemig COVID-19 a oedd yn arwain at effaith barhaus ar broses asesu DoLS. Bu'n rhaid i'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol addasu mewn ffyrdd nas defnyddiwyd o'r blaen i'r heriau a gyflwynir gan y pandemig, a chydymffurfio â mesurau a gaiff eu rhoi ar waith yn genedlaethol ac yn lleol i leihau lledaeniad y feirws.

Wrth i ni symud yn araf allan o'r pandemig i mewn i gyfnod adfer, mae'r cynnydd yn y galw am ofal a chymorth wedi creu pwysau sylweddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ar adeg pan fydd recriwtio a chadw gweithlu wedi cyrraedd sefyllfa argyfyngus.

Y llynedd, gwnaethom nodi bod y pandemig wedi effeithio ar hysbysiadau DoLS, gyda nifer yr hysbysiadau gan wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion ac ysbytai yn cyrraedd eu pwynt isaf ers 2020-21 cyn dechrau adfer. Gan fod effaith y pandemig yn amlwg o hyd yn ystod 2020-21, cynhaliwyd dadansoddiad yn erbyn adroddiad DoLS y llynedd, ond hefyd o 2019-20 pan nad oedd COVID-19 yn ffactor dylanwadol.

Casglu Data DoLS

Casglwyd data gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd ym mis Ebrill a mis Mai 2022, ac roedd hyn yn ymwneud â'r ceisiadau DoLS a gafwyd yn ystod blwyddyn ariannol 2021-22. Mae'r data'n darparu manylion dienw am y canlynol:

- nifer y ceisiadau;
- proffil demograffig;
- mathau o geisiadau;
- awdurdodiadau newydd;
- amserlenni ceisiadau;
- Adolygiadau, Cynrychiolwyr, Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCAs) a'r Llys Gwarchod

Nifer y ceisiadau

Byrddau Iechyd


Cafodd byrddau iechyd gyfanswm o 6,126 o geisiadau DoLS newydd a Phellach yn 2021-22. Mae hyn yn cynrychioli canlyniad tebyg i 2020-21 (6,111), a gostyngiad o 6% o gymharu 2019-20 (6,486).

Roedd gwahaniaethau yn y galw ymysg y byrddau iechyd. Gwelwyd cynnydd sylweddol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Yr esboniad a roddwyd gan y bwrdd iechyd yw bod hyn oherwydd hyfforddiant Aseswyr Budd Pennaf ychwanegol a gynhaliwyd yn ystod 2021-22. Gallai cynnydd mewn presenoldeb Aseswyr Budd Pennaf ar y wardiau ynghyd â hyfforddiant Deddf Galluedd Meddyliol a DoLS ychwanegol fod wedi arwain at gynnydd blynyddol yn nifer y ceisiadau DoLS.

Gwelwyd cynnydd hefyd ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Bwrdd Iechyd Bae Abertawe.

Fodd bynnag, am yr ail flwyddyn yn olynol, gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn ceisiadau i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Ffigur 1a. Nifer y ceisiadau DoLS a gafodd pob bwrdd iechyd rhwng 2019 a 2022




Awdurdodau Lleol

Cafodd awdurdodau lleol gyfanswm o 9,742 o geisiadau DoLS yn 2021-22, gan arwain at gynydd o 7% mewn ceisiadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (9,120) ond gostyngiad o 6% o gymharu â 2019-20 (10,402).

Mae Abertawe yn parhau i adrodd y nifer mwyaf o geisiadau DoLS, ond mae'r niferoedd wedi gostwng yn 2021-22 o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Gwelodd deg awdurdod lleol i gyd gynydd yn nifer y ceisiadau a gafwyd, o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig yn 2019-20. Gwelwyd cynnydd yn nifer y ceisiadau a gafodd awdurdodau lleol Merthyr Tudful, Conwy a Sir y Fflint. Gwelodd Conwy hefyd gynydd sylweddol o gymharu â nifer y ceisiadau ar gyfer 2020-21, ond gostygiad bach a welodd Merthyr Tudful ar gyfer yr un cyfnod.

Gwelodd hanner yr awdurdodau lleol ostyngiad yn nifer y ceisiadau o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig yn 2019-20, yn benodol Torfaen, Abertawe, Sir Benfro a Phen-y-bont ar Ogwr. Ni welwyd unrhyw newid yn Rhondda Cynon Taf.

Ffigur 1b. Nifer y ceisiadau DoLS a gafodd pob awdurdod lleol rhwng 2019 a 2022



Proffil Demografig

Yn 2020, 3.16 miliwn oedd poblogaeth amcangyfrifedig Cymru, ac roedd 2.61 miliwn ohoni yn bobl dros 18 oed³. Mae hyn yn golygu, ar gyfartaledd, y gwnaed 234 o geisiadau i fyrddau iechyd a 384 o geisiadau i awdurdodau lleol, fesul 100,000 o oedolion yng Nghymru (gweler Ffigurau 2a a 2b).

Byrddau Iechyd

Yn debyg i'r cyfansymiau, roedd cryn wahaniaeth rhwng nifer y ceisiadau o gymharu â'r boblogaeth rhwng byrddau iechyd. Gall hyn fod oherwydd gwahaniaethau mewn demograffeg leol a hefyd nifer yr awdurdodau rheoli yn yr ardal honno. Er enghraifft, mae gan rai byrddau iechyd fwy o leoliadau anabledau dysgu neu oedolion hŷn i gleifion mewnol yn eu hardal ddaearyddol, a all arwain at fwy o geisiadau DoLS.

Roedd gan Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chwm Taf Morgannwg nifer mawr o geisiadau mewn perthynas â maint y boblogaeth. Mae'r byrddau iechyd wedi nodi bod hyfforddiant ychwanegol wedi gwella gwybodaeth a sgiliau'r staff ac felly bod cysylltiad uniongyrchol â'r cynnydd yn nifer y ceisiadau.

Ymhellach, nododd Cwm Taf Morgannwg mai'r rheswm dros y nifer uwch o geisiadau mewn perthynas â'r boblogaeth yw mai'r bwrdd iechyd oedd ag un o'r cyfraddau heintio COVID-19 uchaf yng Nghymru, felly roedd y cleifion yn cael eu cludo i safleoedd ysbyty amrywiol a fyddai weithiau'n arwain at sawl cais rhwng awdurdodau rheoli.

Ffigurau 2a. Cyfanswm y boblogaeth sy'n oedolion a nifer y ceisiadau DoLS a gafodd pob bwrdd iechyd a nifer y ceisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion yn 2021-22

	Cyfanswm y Boblogaeth dros 18 oed	Nifer y ceisiadau DoLS	Ceisiadau DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth
Aneurin Bevan	474,525	1,028	216.6
Betsi Cadwaladr	565,013	1,597	282.6
Caerdydd a'r Fro	401,233	152	37.9
Cwm Taf Morgannwg	357,523	1,202	336.2 ⁴
Hywel Dda	316,215	759	240.0
Powys	109,186	455	416.7 ⁵
Bae Abertawe	316,019	933	295.2
Cyfanswm	2,539,714	6,126	241.2

³Gweler [Amcangyfrifon poblogaeth lefel cenedlaethol fesul blwyddyn, oed a gwlad y DU \(llyw.cymru\)](#)

Awdurdodau lleol

Roedd gwahaniaeth sylweddol yn nifer y ceisiadau DoLS a gafodd awdurdodau lleol fesul 100,000 o'r boblogaeth, gan ddangos darlun cymhleth sy'n gysylltiedig â demograffeg leol a gwybodaeth am y DoLS a dealltwriaeth ohonynt ym mhob rhan o'r sector. Ar gyfartaledd, cyfradd y ceisiadau DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth oedolion oedd 384 ledled Cymru. Roedd y gyfradd uchaf yn amrywio o 645 yn Wrecsam a 643 yng Nghastell-nedd Port Talbot, i'r gyfradd isaf sef 231 ym Merthyr Tudful a 244 yn Rhondda Cynon Taf. Parhaodd y ddau awdurdod lleol olaf i adrodd y gyfradd isaf o geisiadau DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth.


Ffigurau 2b. Cyfanswm y boblogaeth sy'n oedolion a nifer y ceisiadau DoLS a gafodd pob awdurdod lleol a nifer y ceisiadau fesul 100,000 o'r boblogaeth sy'n oedolion yn 2021-22

	Cyfanswm y Boblogaeth dros 18 oed	Nifer y ceisiadau DoLS	Ceisiadau DoLS fesul 100,000 o'r boblogaeth
Blaenau Gwent	56,401	191	338.6
Pen-y-bont ar Ogwr	118,204	391	330.8
Caerffili	144,061	398	276.3
Caerdydd	293,830	786	267.5
Sir Gaerfyrddin	152,810	606	396.6
Ceredigion	60,661	228	375.9
Conwy	97,000	461	475.3
Sir Ddinbych	77,165	347	449.7
Sir y Fflint	124,648	463	371.4
Gwynedd	101,957	276	270.7
Ynys Môn	57,101	271	474.6
Merthyr Tudful	47,544	110	231.4
Sir Fynwy	77,843	290	372.5
Castell-nedd Port Talbot	116,296	748	643.2
Casnewydd	120,851	499	412.9
Sir Benfro	102,744	354	344.5
Powys	109,186	513	469.8
Rhondda Cynon Taf	191,775	467	243.5
Abertawe	199,723	973	487.2
Torfaen	75,369	246	326.4
Bro Morgannwg	107,403	433	403.2
Wrecsam	107,142	691	644.9
Cyfanswm	2,539,714	9,742	383.6

Byrddau iechyd

Y prif grŵp o bobl â chais DoLS oedd oedolion hŷn, gydag 88% o'r ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd yn 2021-22 yn geisiadau ar gyfer rhywun dros 65 oed (gweler Ffigur 3a⁶). Roedd rhaniad cyfartal rhwng y rhywiau, fodd bynnag, mae'r cydbwysedd hwn rhwng y rhywiau yn newid yn y grŵp oedran hynaf, gyda chyfran uwch o bobl 85 oed a throsodd yn fenywod. Mae'r gwahaniaethau mewn demograffeg rhwng ardaloedd i'w priodoli'n bennaf i'r poblogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y lleoliadau yn yr ardaloedd hynny.

Ffigur 3a. Y dadansoddiad o oedran yn ôl rhywedd ym mhob bwrdd iechyd ar gyfer yr holl geisiadau yn 2021-22




Awdurdodau lleol

Lledled Cymru, parhaodd awdurdodau lleol i gael y mwyafrif o geisiadau DoLS, a chawsant 9,742 o geisiadau i gyd yn 2021-22. Roedd mwy na 60% o'r ceisiadau ar gyfer menywod. Roedd tua 87% o'r ceisiadau i awdurdodau lleol ar gyfer rhywun dros 65 oed. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r tueddiad demograffig ar gyfer DoLS yn dangos y gwnaed niferoedd mwy o geisiadau ar gyfer dynion hyd at 64 oed, ond ar ôl cyrraedd 65 oed, gwnaed niferoedd sylweddol uwch o geisiadau ar gyfer menywod.

⁶ Cafodd byrddau iechyd 6,126 o geisiadau DoLS i gyd, fodd bynnag, ni chyflenwyd yr holl ddata demograffig, felly cyfanswm y data demograffig oedd 6,121.

Ffigur 3b. Y dadansoddiad o oedran yn ôl rhywedd ym mhob awdurdod lleol ar gyfer pob cais yn 2021-22.



Ceisiadau a wnaed gan awdurdodau rheoli y tu allan i Gymru

Mae rhai pobl o Gymru yn cael eu gofal a'u cymorth neu eu triniaeth mewn cartref gofal neu mewn ysbyty y tu allan i Gymru. Pan fydd awdurdod rheoli y tu allan i Gymru yn cael cais ond bod y gofal a chymorth neu'r driniaeth wedi'u trefnu gan awdurdod lleol neu fwrdd iechyd yng Nghymru, yna Cyrff Goruchwylio Cymru sy'n gyfrifol am yr asesiadau DoLS o hyd.

Byrddau iechyd

Yn ystod 2021-22, gwnaed 352 o geisiadau DoLS (5.7%) i dri bwrdd iechyd gan awdurdodau rheoli o'r tu allan i Gymru. Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a gafodd 68% o'r ceisiadau a wnaed y tu allan i Gymru, cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 31% ohonynt a chafodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan 1% ohonynt. Mae pob un o'r byrddau iechyd hyn yn ffinio â Lloegr.

Awdurdodau lleol

Yn ystod y cyfnod adrodd 2021-22, gwnaed 224 o geisiadau DoLS i 19 o awdurdodau lleol gan awdurdodau rheoli y tu allan i Gymru. Roedd hyn yn cynrychioli 2% o'r holl geisiadau a wnaed i awdurdodau lleol. Dim ond Blaenau

Gwent, Merthyr Tudful a Thorfaen a nododd na wnaed unrhyw geisiadau o'r tu allan i Gymru. Powys a gafodd y nifer uchaf o geisiadau gyda 76 o bobl yn derbyn gofal mewn cartref gofal yn Lloegr. Gwnaed bron i ddwy ran o dair o'r ceisiadau hyn ar gyfer pobl 65 oed a throsodd.

Mathau o geisiadau

Byrddau iechyd

Roedd y rhan fwyaf o'r 6,126 o geisiadau a wnaed i fyrddau iechyd yn 2021-22 yn rhai Brys (87% o'r holl geisiadau). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o un flwyddyn i'r llall, o 81% yn 2020-21 a 75% yn 2019-20. Ceisiadau Safonol oedd y gweddill yn bennaf (10% o'r holl geisiadau a wnaed i fyrddau iechyd) a dim ond 3% oedd yn geisiadau am awdurdodiad Pellach.

Roedd gwahaniaeth mawr rhwng byrddau iechyd o ran cyfran y ceisiadau a gafwyd drwy'r llwybr Safonol a Brys. Mae gwahaniaethau oherwydd y mathau o leoliadau gofal iechyd sy'n bodoli ym mhob ardal. Mae mwy o leoliadau gofal iechyd sy'n darparu gofal hirdymor mewn rhai ardaloedd, tra bod cyfran uwch o leoliadau gofal iechyd sy'n darparu gofal aciwt a byrdymor mewn ardaloedd eraill o bosibl. Gall y gwahaniaethau ddigwydd dros amser hefyd, gyda rhai byrddau iechyd yn cofnodi newidiadau yn y cymarebau ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

Nifer bach o geisiadau Safonol a gafwyd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r byrddau iechyd yn priodoli hyn i'r ffaith eu bod ond yn cael ceisiadau Safonol gan wardiau iechyd meddwl ar gyfer cleifion sydd wedi'u cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ac nad yw'r Tîm Iechyd Meddwl yn teimlo eu bod yn bodloni meini prawf y Ddeddf Iechyd Meddwl mwyach. Felly, mae cais DoLS yn fwy priodol.

Ffigur 4a. Canran y mathau gwahanol o geisiadau ar gyfer pob bwrdd iechyd yn 2021-22

	Safonol	Brys	Pellach
Aneurin Bevan	10%	89%	1%
Betsi Cadwaladr	2%	93%	5%
Caerdydd a'r Fro	20%	72%	7%
Cwm Taf Morgannwg	23%	71%	6%
Hywel Dda	1%	95%	5%
Powys	8%	92%	0%
Bae Abertawe	12%	87%	1%
Cyfanswm	10%	87%	3%

Awdurdodau Lleol

Ceisiadau am awdurdodiad Safonol oedd y mwyafrif o'r 9,742 o geisiadau am awdurdodiad Safonol o hyd. O blith yr holl geisiadau yn 2021-22, roedd 49% [4,808] yn geisiadau am awdurdodiad Safonol, roedd 20% [1,959] yn geisiadau drwy'r llwybr Brys, ac roedd y 31% [2,975] a oedd yn weddill yn geisiadau am awdurdodiad Pellach. Er bod nifer o awdurdodau lleol wedi rhoi awdurdodiadau byrrach, ni

welsom y cynnydd y byddem wedi'i ddisgwyl yn nifer y ceisiadau am awdurdodiad Pellach. Fodd bynnag, gall y ffaith bod tri o'r 22 o awdurdodau lleol wedi nodi na chawsant unrhyw geisiadau am awdurdodiad Pellach ar gyfer y cyfnod adrodd hwn fod wedi effeithio ar y ffigur hwn. Gall hyn fod yn broblem cofnodi; bydd AGC yn trafod hyn â'r awdurdodau lleol fel rhan o'r broses barhaus o fonitro perfformiad awdurdodau lleol.

Gwelwyd mân newid yng nghyfran y ceisiadau drwy'r llwybr Brys a gynyddodd i 20% o 17% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Ffigur 4b. Canran y mathau gwahanol o geisiadau ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn 2021-22

	Safonol	Brys	Pellach
Blaenau Gwent	18%	43%	38%
Pen-y-bont ar Ogwr	57%	3%	40%
Caerffili	31%	47%	22%
Caerdydd	64%	6%	29%
Sir Gaerfyrddin	60%	16%	24%
Ceredigion	53%	7%	40%
Conwy	39%	27%	34%
Sir Ddinbych	84%	16%	0%
Sir y Fflint	85%	15%	0%
Gwynedd	79%	20%	0%
Ynys Môn	39%	16%	45%
Merthyr Tydfil	77%	8%	15%
Sir Fynwy	14%	60%	26%
Castell-nedd Port Talbot	34%	4%	62%
Casnewydd	44%	15%	41%
Sir Benfro	51%	23%	27%
Powys	43%	23%	34%
Rhondda Cynon Taf	66%	20%	14%
Abertawe	57%	7%	36%
Torfaen	23%	53%	24%
Bro Morgannwg	75%	5%	20%
Wrecsam	0%	52%	48%
Cyfanswm	49%	20%	31%

Awdurdodiadau Newydd

Byrddau Iechyd


O blith y 6,126 o geisiadau DoLS a gafodd byrddau iechyd yn 2021-22, roedd 12% yn dal i fynd rhagddynt ar 1 Ebrill 2022. Mae hyn yn ostyngiad o gymharu â cheisiadau'r ddwy flynedd diwethaf, a oedd yn dal i fynd rhagddynt (17%).

Cafodd 64% o geisiadau eu tynnu'n ôl eleni cyn y gellid eu hasesu. Mae nifer y ceisiadau a dynnwyd yn ôl wedi cynyddu o un flwyddyn i'r llall, o 48% yn 2019-20 a 57% yn 2020-21. Y prif resymau a roddwyd dros dynnu ceisiadau'n ôl oedd bod yr unigolyn wedi cael ei ryddhau o'r ysbyty, wedi adennill ei alluedd, wedi trosglwyddo i safle arall neu wedi marw.

O blith y 1,454 a oedd yn weddill, cafodd 74% (1,075) eu hawdurdodi. Mae hyn ychydig yn is na'r ceisiadau a awdurdodwyd y llynedd (78%) ac yn gyfartal â 2019-20 (74%).

Ar draws pob bwrdd iechyd, awdurdodwyd cyfran uwch o geisiadau Safonol na cheisiadau drwy'r llwybr Brys. Roedd gwahaniaeth o ran cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob bwrdd iechyd. Awdurdodwyd nifer is o geisiadau drwy'r llwybr Brys gan fyrdau iechyd Hywel Dda, Powys a Bae Abertawe, ac mae'r ffigurau hyn wedi gostwng dros y ddwy flynedd diwethaf.

Ffigur 5a. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob bwrdd iechyd yn 2021-22



Nifer cymharol fach o'r ceisiadau a wnaed i fyrddau iechyd a wrthodwyd. Roedd yn fwy tebygol nad oedd angen y cais mwyach cyn iddo gael ei asesu, yn hytrach na bod argymhelliad wedi'i wneud i wrthod y cais. Fodd bynnag, os oedd cais wedi'i wrthod, y rheswm mwyaf cyffredin oedd nad oedd yr amod galluedd meddyliol wedi'i fodloni.

Ers 2019, mae nifer y ceisiadau a wrthodwyd nad oeddent yn achos o amddifadu wedi gostwng o 23% i 15% yn 2021-22.

Ffigur 5ai. Cyfran y ceisiadau na chawsant eu hawdurdodi yn ôl rheswm y bwrdd iechyd dros wrthod yn 2021-22⁷

	Gwrthodwyd					Tynnwyd yn ôl	Yn mynd rhagddynt
	Budd pennaf	Cymhwysedd ⁸	Galluedd Meddyliol	Iechyd Meddwl	Nid yw'n achos o amddifadu		
Aneurin Bevan	4%	4%	89%	4%	0%	52%	35%
Betsi Cadwaladr	0%	18%	72%	5%	4%	71%	6%
Caerdydd a'r Fro	0%	0%	100%	0%	0%	47%	22%
Cwm Taf Morgannwg	0%	3%	58%	39%	0%	54%	12%
Hywel Dda	0%	46%	54%	0%	0%	70%	12%
Powys	0%	0%	89%	11%	0%	79%	7%
Bae Abertawe	1%	7%	73%	4%	15%	68%	0%
Cyfanswm	1%	14%	70%	10%	5%	64%	12%


Awdurdodau Lleol

Roedd cyfran y ceisiadau a aseswyd ac a awdurdodwyd yn amrywio gan bob awdurdod lleol. Parhaodd Wrecsam i fod yn eithriad, gan na nododd unrhyw geisiadau Safonol ar gyfer y cyfnod adrodd. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn awdurdodi cyfran uwch o geisiadau DoLS.

Ffigur 5b. Cyfran y ceisiadau a awdurdodwyd gan bob awdurdod lleol yn 2021-22

⁷ Mae manylion yr asesiadau gwahanol i'w gweld yn yr Eirfa.

⁸ Defnyddir y meini prawf cymhwysedd pan all y Ddeddf Iechyd Meddwl fod yn gymwys yn lle DoLS. Mae byrddau iechyd sy'n gwneud mwy o ddefnydd o'r gofyniad cymhwysedd yn cael mwy o geisiadau gan unedau iechyd meddwl, lle gall cleifion fod yn anghymwys i gael DoLS oherwydd y Ddeddf Iechyd Meddwl.



O blith y 9,742 o geisiadau DoLS a gafodd awdurdodau lleol yn 2021-22, roedd 3,564 [37%] yn dal i fynd rhagddynt ar 1 Ebrill 2022. Roedd hyn yn gynydd bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol gyda 3,564 o bobl yn ystod 2021-22 yn aros yn rhy hir i gael prosesu eu cais DoLS a oedd yn arwain at risg o dorri eu hawliau dynol. Hefyd, cafodd 12% o geisiadau eu tynnu'n ôl cyn iddynt gael eu hasesu sy'n golygu ei bod yn bosibl bod 1,128 o bobl wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb y trefniadau diogelu priodol yn ystod 2021-22. Y prif reswm dros dynnu ceisiadau'n ôl yw bod yr unigolyn yn marw cyn i benderfyniad gael ei wneud neu fod yr unigolyn

wedi gadael neu wedi symud i gartref gofal arall. Pan fydd pobl yn symud i gartref gofal arall, rhaid gwneud cais newydd os bydd hynny'n ofynnol o hyd.

Nid oedd unrhyw geisiadau yn mynd rhagddynt yn Wrecsam na Phen-y-bont ar Ogwr fel y gwelwyd yn Abertawe yn 2020-21. Fodd bynnag, yn 2021-22, nododd Abertawe (yr awdurdod lleol â'r nifer mwyaf o geisiadau yng Nghymru) fod cyfran fach o geisiadau yn mynd rhagddynt. Gwelodd Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful gynnydd yng nghyfran y ceisiadau sy'n mynd rhagddynt, a gwelodd Caerdydd, Bro Morgannwg ac awdurdodau lleol eraill ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

O'r 5,050 o geisiadau a aseswyd gan yr awdurdodau lleol yn ystod 2021-22, cafodd 95% (4,801) eu hawdurdodi. Mae hyn yn gynnydd o gymharu â nifer y ceisiadau DoLS a awdurdodwyd y flwyddyn flaenorol (88%). Fel yn achos byrddau iechyd, ychydig iawn o geisiadau (llai na 5%) a wnaed i awdurdodau lleol a wrthodwyd, ac roedd y rhesymau dros eu gwrthod yn amrywio'n sylweddol rhwng pob awdurdod lleol. O'r 249 o geisiadau a wrthodwyd, cafodd 68% (162) o'r ceisiadau hyn eu gwrthod ar y sail nad oedd yr amod galluedd meddyliol wedi'i fodloni – mae hyn yn gynnydd o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig (53%), a chafodd 20% neu 48 o geisiadau eu gwrthod oherwydd cymhwysedd⁹. Cafodd tri chwarter [35] y ceisiadau a wrthodwyd gan Sir Gaerfyrddin eu gwrthod am resymau cymhwysedd. Fodd bynnag, ni wnaeth rhai awdurdodau lleol wrthod unrhyw geisiadau, gan gynnwys Caerdydd a Gwynedd.

Mae AGC yn ymwybodol o'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi hyfforddiant, yn enwedig wrth roi egwyddorion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ar waith. Mae hwn yn faes y bydd AGC yn parhau i'w fonitro a'i drafod â'r awdurdodau lleol.

⁹ Gweler y Rhestr Termau am ragor o wybodaeth

Ffigur 5bi. Cyfran y ceisiadau na chawsant eu hawdurdodwyd gan bob awdurdod lleol yn 2021-22

	Gwrthodwyd					Tynnwyd yn ôl	Yn mynd rhagddynt
	Budd pennaf	Cymhwysedd	Galluedd Meddyliol	Iechyd Meddwl	Nid yw'n achos o amddifadu		
Blaenau Gwent	0%	17%	83%	0%	0%	17%	28%
Pen-y-bont ar Ogwr	5%	0%	95%	0%	0%	15%	0%
Caerffili	0%	0%	100%	0%	0%	9%	53%
Caerdydd	0%	0%	0%	0%	0%	1%	51%
Sir Gaerfyrddin	2%	76%	15%	2%	4%	23%	36%
Ceredigion	0%	0%	40%	0%	60%	15%	19%
Conwy	53%	13%	33%	0%	0%	15%	46%
Sir Ddinbych	0%	0%	100%	0%	0%	7%	58%
Sir y Fflint	0%	0%	100%	0%	0%	21%	34%
Gwynedd	0%	0%	0%	0%	100%	13%	69%
Ynys Môn	0%	0%	100%	0%	0%	13%	42%
Merthyr Tudful	0%	0%	100%	0%	0%	13%	72%
Sir Fynwy	0%	0%	100%	0%	0%	7%	50%
Castell-nedd Port Talbot	0%	0%	100%	0%	0%	10%	25%
Casnewydd	0%	0%	88%	13%	0%	6%	40%
Sir Benfro	8%	0%	92%	0%	0%	21%	40%
Powys	0%	36%	64%	0%	0%	15%	55%
Rhondda Cynon Taf	0%	0%	100%	0%	0%	15%	73%
Abertawe	0%	0%	100%	0%	0%	12%	6%
Torfaen	14%	0%	86%	0%	0%	10%	44%
Bro Morgannwg	0%	0%	14%	0%	86%	1%	54%
Wrecsam	0%	19%	78%	0%	4%	9%	0%
Cyfanswm	5%	20%	68%	1%	6%	12%	37%

Amserlenni ceisiadau

Unwaith y daw cais i law, caiff ei gofnodi a'i flaenoriaethu cyn cael ei ddyrannu i aseswr. Mae'r canllawiau'n¹⁰ nodi y dylai'r asesiadau gael eu cwblhau o fewn pum diwrnod ar gyfer awdurdodiad Brys, a 21 diwrnod ar gyfer awdurdodiad Safonol.

Mae'r data canlynol yn dangos yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau mewn terfynau amser o saith diwrnod, o wneud penderfyniad ar yr un diwrnod, hyd at pan fydd penderfyniad yn cymryd mwy na 28 diwrnod. Ni chaiff y ceisiadau a dynnwyd yn ôl eu cynnwys.

¹⁰<http://www.wales.nhs.uk/sites3/Documents/744/Guidance%20for%20Supervisory%20Bodies.pdf>

Byrddau iechyd

Mae'r canlyniadau'n dangos bod 96% o geisiadau drwy'r llwybr Brys i fyrddau iechyd wedi cymryd mwy na saith diwrnod i'w prosesu, a bod 73% o geisiadau Safonol wedi cymryd mwy na 28 diwrnod i'w prosesu. Ar gyfer awdurdodau lleol, cymerodd 93% o geisiadau drwy'r llwybr Brys fwy na saith diwrnod i'w prosesu, cymerodd 88% o geisiadau Safonol fwy na 28 diwrnod i'w prosesu, a chymerodd 66% o geisiadau Pellach fwy na 28 diwrnod i'r prosesu.

Mae byrddau iechyd wedi gweld cynnydd o un flwyddyn i'r llall yn yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau Safonol, 50% yn 2019-20, 55% yn 2020-21 ac eleni gwelwyd cynnydd sylweddol i 73% yn y rhai a gymerodd fwy na 28 diwrnod.

Mae'r un peth yn wir ar gyfer ceisiadau drwy'r llwybr Brys, lle'r oedd yr amser a gymerwyd i brosesu'r ceisiadau yn llai na 7 diwrnod. Gostyngodd y cyfartaledd cenedlaethol o 8% yn 2019-20 i 4% yn 2021/22. Ymhellach, rydym hefyd yn gweld cynnydd sylweddol o un flwyddyn i'r llall yn yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau drwy'r llwybr Brys dros 28 diwrnod, o 34% yn 2019-20 i bron dwbl hynny sef 64% yn 2021-22.

Ffigur 6a. Yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau ar gyfer pob bwrdd iechyd yn 2021-22

	Yr un diwrnod	1-7 diwrnod	8-14 diwrnod	15-28 diwrnod	Mwy nag 28 diwrnod
Safonol					
Aneurin Bevan	0%	14%	0%	13%	73%
Betsi Cadwaladr	0%	0%	0%	14%	86%
Caerdydd a'r Fro	0%	7%	13%	33%	47%
Cwm Taf					
Morgannwg	0%	0%	5%	18%	77%
Hywel Dda	0%	0%	50%	50%	0%
Powys	0%	0%	17%	33%	50%
Bae Abertawe	0%	3%	0%	13%	84%
Cyfanswm	0%	3%	5%	19%	73%
Brys					
Aneurin Bevan	0%	1%	3%	25%	71%
Betsi Cadwaladr	0%	0%	5%	14%	81%
Caerdydd a'r Fro	0%	32%	10%	29%	29%
Cwm Taf					
Morgannwg	0%	7%	16%	33%	44%
Hywel Dda	0%	7%	21%	29%	43%
Powys	0%	0%	10%	38%	52%
Bae Abertawe	0%	2%	3%	14%	81%
Cyfanswm	0%	4%	9%	23%	64%

Awdurdodau lleol

Yn ystod 2021-22, roedd 49% o'r 4,808 o geisiadau a gafodd awdurdodau lleol ar gyfer awdurdodiad Safonol a dylai asesiadau gael eu cwblhau o fewn 21 diwrnod.

O'r asesiadau a gynhaliwyd, cymerodd 88% fwy na 28 diwrnod i'w cwblhau. Asesodd Merthyr 55% o'i asesiadau mewn llai na 28 diwrnod; fodd bynnag, fel y nodwyd yn gynharach, Merthyr yw un o'r awdurdodau lleol oedd â'r gyfran uchaf o geisiadau'n mynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cymerodd Pen-y-bont ar Ogwr, awdurdod lleol heb unrhyw geisiadau'n mynd rhagddynt ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fwy na 28 diwrnod i asesu 98% o'r ceisiadau a gafwyd am awdurdodiad Safonol. Dim ond tua 20% o'r asesiadau y llwyddodd y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol i'w cwblhau o fewn 28 diwrnod.

Ffigur 6b. Yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau Safonol ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2021-22

	Yr un diwrnod	1-7 diwrnod	8-14 diwrnod	15-28 diwrnod	Mwy nag 28 diwrnod
	Safonol				
Pob Awdurdod Lleol	0%	1%	2%	8%	88%
Blaenau Gwent	0%	0%	0%	25%	75%
Pen-y-bont ar Ogwr	0%	1%	1%	1%	98%
Caerffili	0%	6%	6%	6%	81%
Caerdydd	0%	1%	4%	12%	84%
Sir Gaerfyrddin	0%	0%	3%	1%	96%
Ceredigion	0%	1%	0%	1%	97%
Conwy	0%	0%	5%	5%	89%
Sir Ddinbych	0%	0%	0%	7%	93%
Sir y Fflint	1%	2%	3%	10%	85%
Gwynedd	0%	5%	10%	10%	75%
Ynys Môn	0%	0%	0%	0%	100%
Merthyr Tydfil	33%	11%	0%	11%	44%
Sir Fynwy	0%	0%	0%	0%	100%
Castell-nedd					
Port Talbot	0%	0%	0%	5%	95%
Casnewydd	0%	6%	3%	22%	69%
Sir Benfro	0%	4%	7%	33%	56%
Powys	0%	0%	0%	4%	96%
Rhondda Cynon					
Taf	5%	5%	15%	5%	70%
Abertawe	0%	0%	0%	7%	93%
Torfaen	0%	0%	5%	5%	89%
Bro Morgannwg	0%	2%	4%	16%	77%
Wrecsam	0%	0%	0%	0%	0%

O'r ceisiadau a gafwyd yn 2021-22, roedd 20% neu 1,959 am awdurdodiad Safonol yn dilyn awdurdodiad Brys. Roedd nifer y ceisiadau Safonol yn dilyn ceisiadau drwy lwybr Brys yn amrywio ledled Cymru gyda'r gyfran uchaf o geisiadau drwy lwybr Brys yn Sir Fynwy (60%) yna Torfaen (53%) a Wrecsam (52%). Nododd hanner yr awdurdodau lleol fod cyfran y ceisiadau drwy lwybr Brys yn llai nag 20% o'r holl geisiadau.

O'r ceisiadau a gafwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd 3% ar gyfer awdurdodiad Safonol yn dilyn cais drwy lwybr Brys, a chafodd 80% o'r ceisiadau eu hasesu mewn llai na saith diwrnod. Ar gyfer Abertawe, yr awdurdod lleol oedd â'r nifer mwyaf o geisiadau yng Nghymru, roedd 7% o'r ceisiadau ar gyfer awdurdodiad Safonol yn dilyn un Brys, cafodd 30% o'r ceisiadau eu hasesu mewn llai na saith diwrnod a 75% mewn llai na 14 diwrnod. Ym Mro Morgannwg, roedd 5% o'r ceisiadau a gafwyd ar gyfer awdurdodiad Safonol yn dilyn un Brys, cafodd 33% eu hasesu mewn llai na saith diwrnod a 58% mewn llai na 14 diwrnod.

Nododd nifer bach o awdurdodau lleol bod pob cais am awdurdodiad Safonol yn dilyn un Brys wedi cymryd mwy na 28 diwrnod i'w asesu. Cyngor Sir Fynwy oedd â'r gyfran uchaf o geisiadau am awdurdodiad Safonol yn dilyn un Brys a dim ond 7% y gwnaethant lwyddo i'w asesu mewn llai na 28 diwrnod.

Mae awdurdodiad Brys fel arfer am gyfnod o saith diwrnod ar y mwyaf, ond mewn amgylchiadau eithriadol, gall y corff goruchwylio ymestyn awdurdodiad Brys i uchafswm o 14 diwrnod. Ni chaiff nifer yr awdurdodiadau Brys a gafodd eu hymestyn ei gynnwys yn y data presennol. Gall rhai cyrff goruchwylio gael budd o adolygu eu gweithdrefn bresennol ar gyfer awdurdodiad Brys gyda'r awdurdodau rheoli.

Ffigur 6bi. Yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau Brys ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2021-22

	Yr un diwrnod	1-7 diwrnod	8-14 diwrnod	15-28 diwrnod	Mwy nag 28 diwrnod
	Brys				
Pob Awdurdod Lleol	0%	6%	12%	17%	64%
Blaenau Gwent	0%	0%	4%	0%	96%
Pen-y-bont ar Ogwr	0%	80%	10%	10%	0%
Caerffili	0%	0%	4%	4%	93%
Caerdydd	0%	3%	17%	24%	55%
Sir Gaerfyrddin	0%	11%	37%	29%	23%
Ceredigion	0%	21%	36%	29%	14%
Conwy	0%	12%	7%	2%	79%

Sir Ddinbych	0%	5%	5%	5%	84%
Sir y Fflint	0%	0%	16%	16%	68%
Gwynedd	0%	0%	5%	10%	86%
Ynys Môn	0%	0%	0%	0%	100%
Merthyr Tydfil	0%	0%	0%	0%	100%
Sir Fynwy	0%	2%	0%	5%	93%
Castell-nedd					
Port Talbot	4%	4%	39%	39%	13%
Casnewydd	0%	3%	11%	20%	66%
Sir Benfro	0%	12%	32%	8%	48%
Powys	0%	0%	3%	9%	88%
Rhondda Cynon					
Taf	0%	0%	8%	50%	42%
Abertawe	0%	30%	45%	11%	13%
Torfaen	0%	0%	3%	3%	94%
Bro Morgannwg	0%	33%	25%	8%	33%
Wrecsam	1%	2%	5%	25%	68%

O'r ceisiadau a gafwyd yn 2021-22, roedd 31% (2,975) yn geisiadau Pellach.

Llwyddodd Blaenau Gwent i asesu 80% o'i geisiadau Pellach mewn llai na 28 diwrnod, Wrecsam 71% a Chasnewydd 70%. Ni lwyddodd yr awdurdodau lleol eraill i gwblhau'r rhan fwyaf o'u ceisiadau o fewn 28 diwrnod.

Ffigur 6biii. Yr amser a gymerwyd i brosesu ceisiadau ar gyfer pob awdurdod lleol yn 2021-22 yn ôl cais Pellach

	Yr un diwrnod	1-7 diwrnod	8-14 diwrnod	15-28 diwrnod	Mwy nag 28 diwrnod
	Pellach				
Pob Awdurdod Lleol	0%	3%	6%	24%	66%
Blaenau Gwent	1%	13%	19%	46%	20%
Pen-y-bont ar Ogwr	0%	0%	2%	2%	96%
Caerffili	0%	4%	11%	30%	55%
Caerdydd	0%	0%	2%	22%	76%
Sir Gaerfyrddin	0%	1%	3%	10%	86%
Ceredigion	0%	2%	0%	7%	92%
Conwy	0%	6%	7%	7%	80%
Sir Ddinbych	0%	0%	0%	0%	0%
Sir y Fflint	0%	0%	0%	0%	0%
Gwynedd	0%	0%	0%	0%	0%
Ynys Môn	0%	5%	8%	23%	65%
Merthyr Tydfil	0%	20%	20%	0%	60%

Sir Fynwy	0%	10%	11%	35%	44%
Castell-nedd					
Port Talbot	0%	0%	1%	12%	88%
Casnewydd	0%	10%	15%	45%	30%
Sir Benfro	0%	0%	13%	19%	68%
Powys	0%	2%	4%	10%	85%
Rhondda Cynon					
Taf	4%	9%	9%	17%	61%
Abertawe	0%	0%	0%	8%	92%
Torfaen	0%	2%	2%	38%	58%
Bro Morgannwg	0%	0%	9%	13%	78%
Wrecsam	0%	2%	13%	56%	29%

Hyd awdurdodiad

Noda'r Cod Ymarfer¹¹ y dylai unrhyw awdurdodiad bara cyn lleied o amser â phosibl, a dim ond tra bydd yr unigolyn perthnasol yn bodloni'r meini prawf gofynnol.

Byrddau iechyd

Awdurdodiadau am gyfnod o chwe mis neu lai oedd 93% o'r awdurdodiadau a wnaed gan fyrddau iechyd, gyda 40% am gyfnod o dri mis neu lai. Dim ond 2% o awdurdodiadau a wnaed am flwyddyn gyfan.


Aneurin Bevan a Chaerdydd a'r Fro yw rhai o'r byrddau iechyd i wneud awdurdodiadau blwyddyn o hyd. Ar gyfer y byrddau iechyd hyn, mae hyn am fod nifer cymharol uchel o unedau anabledd dysgu, unedau niwroleg arbenigol ac ysbytai preifat/annibynnol yn darparu gofal adsefydlu hirdymor.

Dim ond 11% o geisiadau a gynigiwyd am y cyfnod cyfan o fewn tri mis ar gyfer Cwm Taf Morgannwg, yna 32% ym Mae Abertawe.

Ffigur 7a. Hyd arfaethedig yr awdurdodiadau gan bob bwrdd iechyd yn 2021-22

¹¹ See

http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20130104224411/http://www.dh.gov.uk/en/Publicationsandstatistics/Publications/PublicationsPolicyAndGuidance/DH_085476




Awdurdodau lleol

Gellir gweld darlun gwahanol ar gyfer hyd y ceisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol, lle mae'r mwyafrif ar gyfer chwe mis neu fwy. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol roedd cynnydd bach yn hyd y ceisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ceisiadau Safonol a Brys. Gwelwyd cynnydd bach yn nifer yr awdurdodiadau safonol a gynigiwyd o fewn y terfyn amser o 1-3 mis, i fyny o 2% yn 2020-21 i 4% yn 2021-22.

Ceredigion oedd yr unig awdurdod lleol a nododd fod bron i ddwy ran o dair o'i geisiadau wedi'u cynnig am lai na thri mis. O gymharu â hynny, cafodd holl geisiadau Merthyr Tudful eu cynnig am rhwng chwe mis a blwyddyn, a nododd Gwynedd fod 80% o'i geisiadau wedi'u cynnig am flwyddyn o leiaf.

Ffigur 7b. Hyd arfaethedig yr awdurdodiadau gan awdurdodau lleol yn 2021-22



Adolygiadau, Cynrychiolwyr, Eiriolwyr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCAs) a'r Llys Gwarchod

Pan gaiff unigolyn ei amddifadu o'i ryddid, rhaid i'r awdurdod rheoli wneud cais am adolygiad os bydd yn ymddangos nad oes un neu fwy o'r gofynion cymhwyso yn cael eu bodloni mwyach neu na ellir eu bodloni mwyach.

Yn ystod 2021-22, cynhaliwyd adolygiad ar 856 o awdurdodiadau (40 mewn byrddau lleol ac 816 mewn awdurdodau lleol). Mae hyn yn cynrychioli 4% o geisiadau a awdurdodwyd gan fyrddau lleol¹² a 17% o geisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol¹³.

Mae hyn yn gynnydd bach i fyrddau iechyd, o gymharu â'r llynedd lle mai dim ond 11% o geisiadau a awdurdodwyd a gafodd eu hadolygu a dim ond 8% yn 2019-20. Cafwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr adolygiadau a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol, i fyny o 5% y llynedd ac o 3% yn 2019-20.

Penodi Cynrychiolydd Unigolyn Perthnasol

Rhaid i'r cyrff goruchwyllo sicrhau y caiff pobl eu cefnogi a'u cynrychioli mewn materion yn ymwneud â'u hamddifadu o'u rhyddid, ac mae pob cais yn ei gwneud yn ofynnol i'r unigolyn gael cynrychiolydd enwebedig. Yn 2021-22, cafodd 60% o'r ceisiadau a awdurdodwyd gan fwrdd iechyd, a chafodd 58% o'r ceisiadau a awdurdodwyd gan awdurdod lleol, eu cynrychioli gan aelod o'r teulu, ffrind neu ofalwr.

Os nad oes unrhyw un yn annibynnol ar wasanaethau i gynrychioli'r unigolyn, rhaid cyfarwyddo IMCA neu gynrychiolydd a delir. Nododd y byrddau iechyd fod 35% o'r awdurdodiadau wedi cael cynrychiolaeth a delir o gymharu â 41% a nodwyd gan awdurdodau lleol. Ni nodwyd bod gan tua 6% o awdurdodiadau gan fyrddau lleol ac 1% gan awdurdodau lleol unrhyw fath o gynrychiolaeth. Er bod hyn yn welliant sylweddol o gymharu â pherfformiad y byrddau iechyd y llynedd (45%), rhaid i'r cyrff goruchwyllo sicrhau y caiff pobl eu cefnogi a'u cynrychioli bob amser.

Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol (IMCA)

Mae gan IMCAs dair rôl mewn achosion amddifadu o ryddid, fel y nodir yn yr adrannau gwahanol o'r DGM.

- caiff IMCA ei benodi o dan Adran 39A os nad oes gan yr unigolyn neb i ymgynghori ag ef.
- caiff IMCA ei benodi o dan Adran 39C os na all cynrychiolydd yr unigolyn ei gynrychioli mwyach dros dro neu yn sydyn.

¹² cafodd 11 o'r rhain eu hadolygu sawl gwaith.

¹³ cafodd 4 o'r rhain eu hadolygu sawl gwaith.

- caiff IMCA ei benodi o dan Adran 39D i gefnogi cynrychiolydd yr unigolyn, os na chaiff y cynrychiolydd hwnnw ei dalu (e.e. aelod o'r teulu), a chred y corff goruchwylio fod angen cymorth arno.

Byrddau iechyd

O blith y 1,454 o geisiadau a awdurdodwyd gan fyrddau iechyd, roedd 21 (1%) yn defnyddio IMCA a benodwyd o dan Adran 39D, roedd 14 (llai nag 1%) yn defnyddio IMCA a benodwyd o dan Adran 39A, ac nid oedd yr un ohonynt yn defnyddio IMCA a benodwyd o dan Adran 39C. Roedd hyn yn is na'r ffigurau blaenorol o un flwyddyn i'r llall. Roedd hyn yn amrywio'n sylweddol rhwng byrddau iechyd, gyda'r mwyafrif o'r IMCA wedi'u penodi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Awdurdodau lleol

O blith y 4,801 o geisiadau a awdurdodwyd gan awdurdodau lleol, roedd 242 (5%) yn defnyddio IMCA a benodwyd o dan Adran 39A, roedd 70 (2%) yn defnyddio IMCA a benodwyd o dan Adran 39D, ac roedd un (llai nag 1%) yn defnyddio IMCA a benodwyd o dan Adran 39C. Roedd y ffigurau hyn yn amrywio'n sylweddol yn ôl awdurdod lleol, gyda'r nifer uchaf o'r holl IMCAs a benodwyd o dan Adran 39A (57%) wedi'i nodi gan Gastell-nedd Port Talbot o hyd, a 44% o'r holl IMCAs a benodwyd o dan Adran 39D wedi'u nodi ar Ynys Môn o hyd.

Atgyfeiriadau at y Llys Gwarchod

Byrddau iechyd

Cafodd cyfanswm o 32 o awdurdodiadau o fyrddau iechyd eu hatgyfeirio at y Llys Gwarchod yn 2021-22. Mae'r ffigur hwn wedi parhau'n gyson dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf (26 yn 2020-21 a 34 yn 2019-20). O fyrddau iechyd Betsi Cadwaladr a Chwm Taf Morgannwg y daeth yr atgyfeiriadau yn bennaf eleni.

Ffigur 8a. Cyfran yr atgyfeiriadau a wnaed gan fyrddau iechyd at y Llys Amddiffyn yn 2019-22.

	2019-20	2020-21	2021-22
Aneurin Bevan	0.0%	1.6%	1.0%
Betsi Cadwaladr	5.6%	3.0%	5.1%
Caerdydd a'r Fro	0.0%	0.0%	0.0%
Cwm Taf	3.7%	3.2%	4.8%
Morgannwg			
Hywel Dda	1.0%	1.9%	0.0%
Addysgu Powys	0.0%	0.0%	0.0%
Bae Abertawe	0.8%	1.7%	0.0%
Cyfanswm Cymru	1.9%	2.2%	3.0%
Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau	34	26	32
Cyfanswm Cyfran yr Atgyfeiriadau	2.2%	2.1%	2.6%

Awdurdodau lleol

Cafodd cyfanswm o 105 o awdurdodiadau awdurdodau lleol eu hatgyfeirio at y Llys Gwarchod yn 2021-22. Mae cyfran yr atgyfeiriadau wedi parhau'n gyson ar 2% o'r holl awdurdodiadau DoLS yn ystod 2019-22. Ar gyfer y cyfnod 2021-22, gwelodd awdurdodau lleol gynnydd o 22% yn nifer yr atgyfeiriadau o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a nodwyd y nifer uchaf gan Sir i Fflint a Rhondda Cynon Taf. Gan edrych yn ôl i'r cyfnod 2019-22, ni chafwyd unrhyw atgyfeiriadau at y Llys Gwarchod gan Ynys Môn, Castell-nedd Port Talbot na Bro Morgannwg.

Ffigur 8b. Cyfran yr atgyfeiriadau a wnaed gan awdurdodau lleol at y Llys Gwarchod yn ystod 2019-22

	2019-20	2020-21	2021-22
Blaenau Gwent	0%	2%	0%
Pen-y-bont ar Ogwr	1%	1%	1%
Caerffili	4%	3%	0%
Caerdydd	0%	1%	0%
Sir Gaerfyrddin	16%	6%	10%
Ceredigion	3%	1%	4%
Conwy	1%	0%	0%
Sir Ddinbych	9%	10%	6%
Sir y Fflint	1%	21%	19%
Gwynedd	0%	0%	2%
Ynys Môn	0%	0%	0%
Merthyr Tydfil	1%	1%	0%
Sir Fynwy	0%	3%	2%
Castell-nedd Port Talbot	0%	0%	0%
Casnewydd	1%	2%	6%
Sir Benfro	9%	1%	0%
Powys	0%	3%	14%
Rhondda Cynon Taf	35%	22%	16%
Abertawe	8%	8%	11%
Torfaen	3%	9%	1%
Bro Morgannwg	0%	0%	0%
Wrecsam	8%	2%	8%
Cyfanswm nifer yr atgyfeiriadau	2% (77)	2% (86)	2% (105)

Ansawdd y Data

Caiff y data yn yr adroddiad hwn eu defnyddio i fonitro'r defnydd a wneir o DoLS ledled Cymru. Fe'u cyflwynir gan awdurdodau lleol a byrddau iechyd i AGC, ond ni chânt eu dilysu gan AGC nac AGIC.

Newidiodd y diffiniad o amddifadu o ryddid yn 2014 ac, felly, ni ellir gwneud cymhariaeth uniongyrchol rhwng y data a gasglwyd ym mlwyddyn ariannol 2013-14 a'r data a gasglwyd mewn blynyddoedd ariannol dilynol. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y newidiadau a gyflwynwyd yma:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/48512/2/DH_Consolidated_Guidance.pdf

Gall fod nifer bach o achosion lle mae ceisiadau wedi eu labelu'n amhriodol fel rhai safonol neu frys, a gall fod rhywfaint o wall yn y canlyniadau.

Mewn rhai achosion, lle mae'r gwerthoedd wedi'u cyflwyno mewn ffigur ynghyd â'u cyfanswm, gall y gwerthoedd fod ychydig yn wahanol am eu bod wedi'u talgrynnu.

Adborth ar yr adroddiad hwn

Rydym yn awyddus i glywed gan bobl sy'n defnyddio ein hystadegau. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau neu gwestiynau am y cyhoeddiad hwn neu ei gynhyrchion cysylltiedig. E-bostiwch CIWInformation@gov.wales neu HIW.PIM@gov.wales.

Geirfa: Termau allweddol a ddefnyddir yn Adroddiad Monitro DoLS

Asesiad at ddiben y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Rhaid i'r chwe gofyniad (asesiad) gael eu bodloni er mwyn i gais gael ei awdurdodi.

- **Asesiad budd pennaf** Asesu a yw amddifadu o ryddid er budd pennaf yr unigolyn perthnasol, a yw'n angenrheidiol er mwyn atal niwed i'r unigolyn, ac a yw'n ymateb cymesur i ddifrifoldeb y niwed hwnnw a'r tebygolrwydd y bydd yn digwydd. Rhaid i hyn gael ei benderfynu gan Asesydd Budd Pennaf.
 - **Asesiad cymhwysedd** Asesu a yw'r unigolyn yn anghymwys i gael awdurdodiad Amddifadu o Ryddid Safonol am y byddai'r awdurdodiad yn gwrthdaro â gofynion sydd wedi'u gosod, neu a allai gael eu gosod, ar yr unigolyn o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
 - **Asesiad dim gwrthodiad** Asesu a oes unrhyw awdurdod arall yn bodoli o ran gwneud penderfyniadau ar ran yr unigolyn perthnasol a fyddai'n atal awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol rhag cael ei roi. Gallai hyn gynnwys unrhyw benderfyniad dilys a wnaed ymlaen llaw, neu benderfyniad dilys gan ddirprwy neu a wnaed o dan Atwrneiaeth Barhaus.
-
- **Asesiad iechyd meddwl** Asesu p'un a oes gan unigolyn anhwylder meddyliol ai peidio. Rhaid i hyn gael ei benderfynu gan ymarferydd meddygol.
 - **Asesiad o alluedd meddyliol** Asesu p'un a oes gan unigolyn alluedd i benderfynu a ddylai fynd i ysbyty neu gartref gofal penodol er mwyn cael gofal neu driniaeth ai peidio.
 - **Oedran** Asesu a yw'r unigolyn perthnasol yn 18 oed neu drosodd.

Adolygiad	Golwg ffurfiol, newydd sbon ar sefyllfa unigolyn perthnasol lle y bu, neu lle y gallai fod, newid mewn amgylchiadau a all olygu bod angen diwygio awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, neu ei derfynu.
AGIC	Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau'r GIG a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru yn erbyn amrywiaeth o safonau, polisïau, canllawiau a rheoliadau er mwyn nodi meysydd y mae angen eu gwella.
Amddifadu o Ryddid	Term yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yw amddifadu o ryddid a ddefnyddir pan gaiff rhyddid person ei gymryd oddi arno. Caiff ei ystyr ymarferol ei ddiffinio drwy gyfraith achosion.
Amddifadu o ryddid heb awdurdod	Sefyllfa lle y caiff unigolyn ei amddifadu o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal heb i hynny gael ei awdurdodi drwy awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol na brys.
Amodau	Gofynion y gall corff goruchwyllo eu rhoi ar waith wrth roi awdurdodiad amddifadu o ryddid Safonol, ar ôl ystyried unrhyw argymhellion a wnaed gan yr Asesydd Budd Pennaf.
Asesydd Budd Pennaf	Person sy'n cynnal asesiad o drefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.
Awdurdod lleol	Yr awdurdod lleol (cyngor) sy'n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau gofal cymdeithasol mewn unrhyw ran benodol o'r wlad. Uwch-reolwyr gwasanaethau cymdeithasol sy'n cyflawni swyddogaeth corff goruchwyllo gwasanaethau gofal cymdeithasol. Bydd gan gartrefi gofal a gaiff eu rhedeg gan yr awdurdod lleol Awdurdodau Rheoli dynodedig.

Awdurdod rheoli	Yr unigolyn neu'r corff sydd â chyfrifoldeb rheoli am yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle y caiff unigolyn ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid. Mae'n atebol am y gofal uniongyrchol a roddir yn y lleoliad hwnnw.
Awdurdodiad Brys	Awdurdodiad a roddir drwy reoli awdurdod am saith diwrnod ar y mwyaf, y gellir ei ymestyn wedi hynny gan saith diwrnod pellach ar y mwyaf gan gorff goruchwyllo. Mae'n rhoi awdurdod cyfreithlon i'r awdurdod rheoli amddifadu unigolyn o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal tra bydd y broses awdurdodi amddifadu o ryddid safonol yn mynd rhagddi.
Awdurdodiad Pellach	Pan ddaw awdurdodiad DoLS i ben, a bod yr Awdurdod Rheoli'n dod i'r casgliad bod angen i'r awdurdodiad barhau, dylid gwneud cais am awdurdodiad pellach. Gellir gwneud cais am y rhain 28 diwrnod ymlaen llaw.
Awdurdodiad Safonol	Awdurdodiad a roddir gan gorff goruchwyllo, ar ôl cwblhau asesiad statudol, sy'n rhoi awdurdod cyfreithlon i amddifadu unigolyn perthnasol o'i ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal penodol.
Bwrdd Iechyd	Mae byrddau iechyd yn cyflawni swyddogaeth corff goruchwyllo ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd ac maent yn cydweithio ag awdurdodau lleol partner, fel arfer yn yr un ardal ddaearyddol, i gynllunio strategaethau hirdymor ar gyfer delio â materion iechyd a llesiant. Maent yn rheoli ysbytai'r GIG a gwelyau cleifion mewnol ar wahân, os mai nhw yw'r awdurdod rheoli.

Cartref gofal

Cyfleuster gofal sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 neu Ddeddf Safonau Gofal 2000.

AGC

Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r corff sy'n gyfrifol am wneud asesiadau a barn broffesiynol am ofal cymdeithasol, y blynyddoedd cynnar a'r gwasanaethau cymdeithasol ac annog gwelliant gan y darparwyr gwasanaeth.

Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol

Mae'r Cod Ymarfer yn ategu'r Ddeddf ac yn rhoi arweiniad i bawb sy'n gofalu am oedolion nad oes ganddynt alluedd a/neu sy'n gwneud penderfyniadau ar eu rhan. Mae'r Cod yn cynnwys astudiaethau achos ac mae'n egluro nodweddion allweddol y Ddeddf yn fanylach.

Corff goruchwyllo

Adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol sy'n gyfrifol am ystyried cais amddifadu o ryddid a geir gan awdurdod rheoli, comisiynu'r asesiadau statudol a, lle bydd yr holl asesiadau'n gytûn, awdurdodi achos o amddifadu o ryddid.

Cydsyniad

Cytuno i gamau gweithredu, yn benodol yn yr adroddiad hwn i gynllun gofal neu gynllun triniaeth. Er mwyn i gydsyniad fod yn gyfreithiol ddilys, mae'n rhaid bod gan yr unigolyn sy'n cydsynio y galluedd i wneud y penderfyniad, ei fod wedi cael digon o wybodaeth i wneud y penderfyniad, ac nad oedd dan unrhyw orfodaeth na phwysau amhriodol.

Cyfyngu ar ryddid

Gweithred a wneir ar berson nad yw o'r graddau na'r dwyster sy'n cyfateb i amddifadu o ryddid.

Cynrychiolydd unigolyn perthnasol

Unigolyn, sy'n annibynnol ar yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol, a benodir i gadw mewn cysylltiad â'r unigolyn perthnasol, a'i gynrychioli a'i gynorthwyo ym mhob mater sy'n ymwneud â gweithredu'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid.

Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn darparu fframwaith i rymuso ac amddiffyn pobl nad oes ganddynt alluedd i wneud rhai penderfyniadau drostynt eu hunain. Mae pum egwyddor allweddol y Ddeddf fel a ganlyn:

1. Mae gan bob oedolyn yr hawl i wneud ei benderfyniadau ei hun a rhaid tybio bod ganddo'r galluedd i'w gwneud oni phrofir fel arall.
2. Rhaid i unigolyn gael pob help ymarferol cyn i unrhyw un ei drin fel na all wneud ei benderfyniadau ei hun.
3. Nid yw'r ffaith bod unigolyn yn gwneud yr hyn a allai gael ei ystyried yn benderfyniad annoeth yn ddigon o reswm i'w drin fel rhywun nad oes ganddo alluedd i wneud y penderfyniad hwnnw.
4. Rhaid i unrhyw beth neu unrhyw benderfyniad a wneir ar ran unigolyn nad oes ganddo alluedd gael ei wneud er ei fudd pennaf.
5. Dylai unrhyw beth a wneir dros neu ar ran unigolyn nad oes ganddo alluedd gyfateb i'r hyn sy'n cyfyngu ar ei hawliau a'i ryddid sylfaenol lleiaf.

Deddf Iechyd Meddwl 1983

Deddfwriaeth yn bennaf am ofal a thriniaeth orfodol cleifion sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae'n cynnwys cadw cleifion yn yr ysbyty i gael triniaeth iechyd meddwl, triniaeth gymunedol wedi'i goruchwyllo a gwarcheidiaeth.

Eiriolwg Galluedd Meddyliol Annibynnol	Eiriolwr hyfforddedig sy'n cefnogi ac yn cynrychioli unigolyn nad oes ganddo'r galluedd i wneud penderfyniadau penodol, lle nad oes gan yr unigolyn unrhyw un arall i'w gefnogi. Sefydlwyd gwasanaeth IMCA gan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, ac mae ei swyddogaethau wedi'u diffinio ynddi.
Galluedd	Yn fyr am alluedd meddyliol. Y gallu i wneud penderfyniad am fater penodol ar yr adeg y mae angen gwneud y penderfyniad. Mae diffiniad cyfreithiol wedi'i gynnwys yn adran 2 o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005.
Gofalwr	Pobl sy'n darparu gofal a chymorth di-dâl i berthnasau, ffrindiau neu gymdogion sy'n eiddil, yn sâl neu sydd fel arall yn agored i niwed.
Goruchaf Lys	Y Goruchaf Lys yw'r llys apêl terfynol ar gyfer achosion sifil yn y DU, ac ar gyfer achosion troseddol o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n gwrandio achosion sydd o'r pwys cyhoeddus neu gyfansoddiadol mwyaf sy'n effeithio ar y boblogaeth gyfan
Llys Gwarchod	Y llys arbenigol ar gyfer pob mater sy'n ymwneud â phobl nad oes ganddynt alluedd meddyliol i wneud penderfyniadau penodol. Dyma'r gwneuthurwr penderfyniadau pennaf sydd â'r un hawliau, breintiau, pwerau ac awdurdod â'r Uchel Lys. Gall sefydlu cyfraith achos sy'n rhoi enghreifftiau o'r ffordd y dylid rhoi'r gyfraith ar waith.

<p>Trefniadau Amddiffyn Rhyddid</p> <p>https://www.gov.uk/government/publications/liberty-protection-safeguards-factsheets</p>	<p>Cyflwynwyd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn Neddf Galluedd Meddyliol (Diwygio) 2019, a byddant yn disodli'r system Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS). Bydd y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn sicrhau canlyniadau gwell i bobl sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid neu y mae angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid. Nod y Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yw rhoi hawliau a dymuniadau'r bobl hynny wrth wraidd pob penderfyniad a wneir ynghylch amddifadu o ryddid.</p>
<p>Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid</p>	<p>Y fframwaith trefniadau diogelu o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 i bobl y mae angen eu hamddifadu o ryddid mewn ysbyty neu gartref gofal er eu budd pennaf er mwyn cael gofal neu driniaeth, ac nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i'r trefniadau a wneir o ran eu gofal neu eu triniaeth.</p>
<p>Uchafswm cyfnod awdurdodiad</p>	<p>Y cyfnod mwyaf y gall corff goruchwyllo roi awdurdodiad amddifadu o ryddid safonol, na all fod am fwy na 12 mis. Ni all fod yn fwy na'r cyfnod a argymhellir gan yr Aseswr Budd Pennaf, a gall ddod i ben yn gynt gyda chytundeb y corff goruchwyllo.</p>
<p>Ysbyty Annibynnol</p>	<p>Fel y'i diffinnir yn Neddf Safonau Gofal 2000 - ysbyty, sydd â'i brif ddiben o roi triniaeth feddygol neu seiciatrig ar gyfer salwch neu anhwylder meddyliol neu ofal lliniarol neu unrhyw sefydliad arall, na chaiff ei ddiffinio fel ysbyty gwasanaeth iechyd, lle caiff triniaeth neu ofal nyrsio (neu'r ddau) eu darparu ar gyfer unigolion sy'n agored i gael eu cadw o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.</p>
<p>Ysbyty neu gartref gofal perthnasol</p>	<p>Yr ysbyty neu'r cartref gofal penodol lle y caiff yr unigolyn ei amddifadu o'i ryddid, neu lle y gall gael ei amddifadu o'i ryddid.</p>